Adran Gwaith a Phensiynau

# Ffurflen gais Credyd Gofalwr

**Mae gennym lawer o wahanol ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi.**

Os oes angen braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, sain neu rywbeth arall, cysylltwch â ni.

Ein manylion cyswllt yw:

- Ffôn: **0800 731 0297**
- Ffôn testun: **0800 731 0317**
- Relay UK: **18001 then 0800 731 0297**.

## Gwybodaeth am y ffurflen gais hon

Defnyddiwch y ffurflen hon i wneud cais am Gredyd Gofalwr. Darllenwch y Nodiadau CC1W cyn i chi lenwi'r ffurflen hon. I ddarganfod a allech gael Credyd Gofalwr, atebwch y cwestiynau ar dudalen 4 o Nodiadau CC1W.

Nid oes angen i chi lenwi'r ffurflen hon os ydych yn cael Lwfans Gofalwr neu Fudd-dal Plant i blentyn sydd o dan 12 oed, oherwydd y byddwch yn cael credydau yn barod. Nid oes angen i chi lenwi'r ffurflen hon os ydych yn ofalwr maeth a byddwch yn cael Credydau Yswiriant Gwladol gan Gyllid a Thollau EM.

Mae rhaid i'r gofalwr neu ei gynrychiolydd lenwi'r ffurflen hon, nid y sawl sy'n derbyn gofal. Llenwch y ffurflen hon yn ofalus. Os llenwch y ffurflen hon drwy ddefnyddio beiro, defnyddiwch inc du a PHRIFLYTHRENNAU. Atebwch yr holl gwestiynau sy'n berthnasol i chi.

Os ydych yn byw yng Nghymru a hoffech i ni gysylltu â chi yn Gymraeg, ticiwch y blwch hwn

☐

## Chi, y gofalwr

**01 Teitl**
Er enghraifft, Mr, Mrs, Miss, Ms neu arall

**02 Cyfenw neu enw teuluol**

**03 Pob enw arall yn llawn**

**04 Unrhyw gyfenwau eraill y'u gelwid arnoch neu rydych yn eu defnyddio nawr**
Rhowch enwau cyn priodi, pob enw priod blaenorol, a phob newid o gyfenw neu enw teulu.

**05 Rhif Yswiriant Gwladol**
Gallwch gael hwn ar eich cerdyn rhif Yswiriant Gwladol, llythyrau am fudd-daliadau, slipiau cyflog, neu ffurflen P60.

**06 Dyddiad geni**
DD/MM/BBBB

**07 Cyfeiriad**

Cod post

**08 Rhif ffôn yn ystod y dydd**
Lle gallwn gysylltu â chi neu adael neges. Cofiwch gynnwys y cod ardal.

**09 Rhif ffôn symudol**

**10 Eich rhif ffôn testun**
Eich rhif ffôn testun, os oes gennych un, ar gyfer pobl ag anawsterau lleferydd a chlyw.

**11 Os oes gennych anawsterau lleferydd neu glyw ac rydych am i ni gysylltu â chi dros ffôn testun, ticiwch y blwch hwn**

☐

**12 Pryd ydych am i'ch Credyd Gofalwr ddechrau?**
Os na fyddwch yn dweud dyddiad wrthym, efallai y bydd eich cais yn cael ei oedi.
DD/MM/BBBB

**13 A ydych yn byw ym Mhrydain Fawr fel arfer?**
Mae Prydain Fawr yn golygu Cymru, Lloegr, a'r Alban.
Ticiwch Ydw os ydych yn rhain o deulu sy'n byw dramor â lluoedd EM.

☐ Nac ydw

☐ Ydw **Ewch i gwestiwn 15**

**14 Ble rydych yn byw fel arfer?**

**15** **A ydych wedi bod yn y carchar neu'r dalfa gyfreithiol ers y dyddiad rydych am i'ch Credyd Gofalwr ddechrau ohono?**

☐ Nac ydw **Ewch i gwestiwn 17**

☐ Ydw

**16** **Pryd oeddech yn y carchar neu yn y ddalfa gyfreithiol?**

DD/MM/BBBB

O

I

## Y gofal rydych yn ei ddarparu

**17** **A ydych wedi gofalu am un neu fwy o bobl, am gyfanswm o 20 awr neu fwy yr wythnos, ers y dyddiad rydych am wneud cais ohono?**

Os ydych wedi gofalu am un neu fwy o bobl am ddim ond rhai wythnosau ers y dyddiad hwn, parhewch i dicio Ydw. I ddarganfod mwy, gwelwch **dudalen 3** o'r **Nodiadau**.

☐ Nac ydw Byddwch yn cael Credyd Gofalwr dim ond os ydych wedi gofalu am un neu fwy o bobl am o leiaf 20 awr yr wythnos.

☐ Ydw Dywedwch wrthym am y bobl rydych yn edrych ar eu holau.

### Person 1

**18** **Teitl**

Er enghraifft, Mr, Mrs, Miss, neu eraill

**19** **Cyfenw neu enw teuluol**

**20** **Pob enw arall yn llawn**

**21** **Eu dyddiad geni**

DD/MM/BBBB

**22** **Eu cyfeiriad**

Nid oes rhaid i chi fyw yn yr un cyfeiriad â'r person rydych yn edrych ar eu hôl.

Cod post

**23** **Eu rhif Yswiriant Gwladol**

**24** **Am faint o oriau bob wythnos rydych yn edrych ar ôl y person hwn?**

**25** **A yw'r person hwn yn cael:**

- Taliad Annibyniaeth Personol ar naill cyfradd yr Elfen Bywyd Bob Dydd neu'r llall, neu
- Taliad Anabledd Oedolion ar gyfradd safonol neu uchaf yr Elfen Bywyd bob Dydd, neu
- elfen ofal Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd ganol neu uchaf, neu
- elfen ofal Taliad Plentyn Anabl ar y gyfradd ganol neu uchaf, neu
- Lwfans Gweini, neu
- Lwfans Gweini Cyson, neu
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog?

☐ Nac ydy — Bydd angen i chi lenwi Tystysgrif Gofal am y person hwn.

☐ Ydy — Ni fydd angen i chi lenwi Tystysgrif Gofal am y person hwn..

Gwelwch y nodiadau am fwy o wybodaeth am Dystysgrifau Gofal.

**26** **A ydych wedi cael seibiant o fwy na 12 wythnos wrth edrych ar ôl y person hwn, ers y dyddiad yr ydych am i'ch Credyd Gofalwr ddechrau?**

☐ Nac ydw — **Ewch i gwestiwn 27**

☐ Ydw

Pryd wnaethoch stopio edrych ar ôl y person hwn?

DD/MM/BBBB

[ ]

Pryd wnaethoch ddechrau edrych ar ôl y person hwn eto?

DD/MM/BBBB

[ ]

Os cawsoch unrhyw seibiannau eraill o fwy na 12 wythnos, dywedwch wrthym amdanynt yn y bwlch yng **nghwestiwn 37**.

**27** **A ydych yn edrych ar ôl mwy nag un person?**

☐ Nac ydw — **Ewch i'r Datganiad**

☐ Ydw — Dywedwch wrthym am un person arall sy'n dechrau yng **nghwestiwn 28**. Os oes angen i chi ddweud wrthym am fwy na dau berson i gyd, defnyddiwch y bwlch yng **nghwestiwn 37**.

## Person 2

**28** **Teitl**

Er enghraifft, Mr, Mrs, Miss, neu eraill

[ ]

**29** **Cyfenw neu enw teuluol**

[ ]

**30** **Pob enw arall yn llawn**

[ ]

**31** **Eu dyddiad geni**

DD/MM/BBBB

[ ]

**32** **Eu cyfeiriad**

Nid oes rhaid i chi fyw yn yr un cyfeiriad â'r person rydych yn edrych ar eu hôl.

[ ]

[ ]

[ ]

Cod post [ ]

**33** **Eu rhif Yswiriant Gwladol**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |

**34** **Am faint o oriau bob wythnos rydych yn edrych ar ôl y person hwn?**

**35** **A yw'r person hwn yn cael:**

- Taliad Annibyniaeth Personol ar naill cyfradd yr Elfen Bywyd Bob Dydd neu'r llall, neu
- elfen ofal Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd ganol neu uchaf, neu
- Taliad Anabledd Oedolion ar gyfradd safonol neu uchaf yr Elfen Bywyd bob Dydd, neu
- elfen ofal Taliad Plentyn Anabl ar y gyfradd ganol neu uchaf, neu
- Lwfans Gweini, neu
- Lwfans Gweini Cyson, neu
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog?

☐ Nac ydy — Bydd rhaid i chi lenwi Tystysgrif Gofal am y person hwn.

☐ Ydy — Ni fydd rhaid i chi lenwi Tystysgrif Gofal am y person hwn.

Gwelwch y nodiadau am fwy o wybodaeth am Dystysgrifau Gofal.

**36** **A ydych wedi cael seibiant o fwy na 12 wythnos wrth edrych ar ôl y person hwn, ers y dyddiad yr ydych am i'ch Credyd Gofalwr ddechrau?**

☐ Nac ydw **Ewch i gwestiwn 37**

☐ Ydw

Pryd wnaethoch stopio edrych ar ôl y person hwn?

DD/MM/BBBB

Pryd wnaethoch ddechrau edrych ar ôl y person hwn eto?

DD/MM/BBBB

Os cawsoch unrhyw seibiannau eraill o fwy na 12 wythnos, dywedwch wrthym amdanynt yn y bwlch yng **nghwestiwn 37**.

## Gwybodaeth arall

37 **Defnyddiwch y bwlch hwn i ddweud wrthym unrhyw beth arall y credwch y gallai fod angen i ni ei wybod. Os nad oes digon o le, defnyddiwch ddalen o bapur ar wahân.**

## Datganiad

Trwy gyflwyno'r cais hwn rydych yn cytuno bod y wybodaeth rydych wedi ei rhoi yn gyflawn ac yn gywir a thra'ch bod yn cael Credyd Gofalwr, byddwch yn rhoi gwybod am newidiadau i'ch amgylchiadau ar unwaith. Os byddwch  yn rhoi gwybodaeth anghywir neu anghyflawn, neu os na fyddwch yn rhoi gwybod am newidiadau ar unwaith, gellir:

- eich erlyn
- stopio eich Credyd Gofalwr a thynnu eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

**Llofnod**

**Dyddiad**

DD/MM/BBBB

## Beth i'w wneud nawr

- Gwiriwch eich bod weid ateb yr holl gwestiynau sy'n berthnasol i chi.
- Os ydym wedi gofyn i chi am Dystysgrif Gofal wedi ei chwblhau, gofynnwch i weithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol i'w lenwi. Anfonwch y Dystysgrif Gofal wedi ei chwblhau atom â'r ffurflen hon.
- Gwiriwch eich bod wedi llofnodi a dyddio'r Datganiad.
- Anfonwch bopeth atom yn yr amlen a ddaeth â'r pecyn cais hwn. Nid oes angen stamp ar yr amlen.
- Ein cyfeiriad yw:
  **Carers Allowance Unit**
  **Mail Handling Site A**
  **Wolverhampton**
  **WV98 2AB**

## Rhagor o wybodaeth

### Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I ddarganfod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am ‘Deddf Cydraddoldeb’ ar **www.gov.uk**

### Costau galwadau

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o ffonau symudol personol a llinellau daear.

### Sut mae Adran Gwaith a Phensiynau yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch efallai y byddwn yn ei defnyddio at unrhyw un o’n dibenion. Mae’r rhain yn cynnwys:

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- ymchwilio ac erlyn troseddau credydau treth
- polisi pensiynau preifat a
- cynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Efallai byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch gan bartïon eraill at unrhyw un o’n dibenion fel y mae’r gyfraith yn caniatáu i wirio’r wybodaeth byddwch yn ei darparu a gwella ein gwasanaethau. Efallai byddwn yn rhoi gwybodaeth amdanoch i sefydliadau eraill fel y mae’r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft i amddiffyn rhag trosedd.

I gael gwybod mwy am ein dibenion, sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol at y dibenion hynny, a’ch hawliau gwybodaeth, gan gynnwys sut i ofyn am gopi o’ch gwybodaeth, ewch i
**www.gov.uk/dwp/siarter-gwybodaeth-bersonol**

### Sianeli cyfryngau cymdeithasol DWP

Dyma gyfrifon cyfryngau cymdeithasol swyddogol a ddefnyddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP):

**www.youtube.com/dwp**

**www.facebook.com/dwpyngymraeg**

**www.x.com/dwpyngymraeg**

**www.instagram.com/dwpgovuk**

**www.linkedin.com/company/dwp**

### Fideos Iaith Arwyddion Prydain (BSL) DWP

**www.youtube.com/dwpsign**